



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau

O bell drwy Microsoft Teams

Dydd Mercher, 10 Mawrth 2021 am 4.00 pm

Yn Bresennol: Y Cyngorydd R V Smith (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cyngorydd(wyr)

J P Curtice
M A Langstone
D W W Thomas

Y Cyngorydd(wyr)

B Hopkins
M B Lewis

Y Cyngorydd(wyr)

L R Jones
S Pritchard

Hefyd yn Bresennol: Y Cyngorydd J A Raynor - Aelod y Cabinet - Gwella Addysg, Dysgu a Sgiliau

Swyddog(ion)

Gareth Borsden
Helen Morgan-Rees
Stephen Holland

Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
cyfarwyddwr addysg
Uwch-Gyfreithiwr

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd(wyr): O G James

16 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

17 Cofnodion.

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2021 fel cofnod cywir.

18 Trafodaeth ac Adolygiad o'r Dystiolaeth / Gwybodaeth a Gyflwynwyd.

Rhoddodd Helen Morgan-Rees gyflwyniad Powerpoint a oedd yn ymdrin â'r materion a'r pynciau a godwyd ac a drafodwyd gan y Pwyllgor yn ystod ei drafodaethau ar effaith COVID, a thrafodwyd y maes canlynol:

- 5 prif fater sy'n dod i'r amlwg yn lleol ac yn genedlaethol - sylfeini ansicr ar gyfer dysgu, gallai diffyg dilyniant dysgwyr eu rhoi dan anfantais am oes, pwysau ar broffesiwn, mae rhai dysgwyr dan fwy o anfantais a phwysau ar y system;
- Sylfeini ansicr ar gyfer dysgu – materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a gwydnwch pobl ifanc, effaith dysgu gartref a diffyg bod yn yr ysgol, diffyg hyder, cymhelliant a hunaneffeithiolrwydd, perthnasoedd, iechyd corfforol a sgiliau galluogi;

- Gallai diffyg dilyniant dysgwyr eu rhoi dan anfantais am oes - rhwystrau i ddatblygiad, sgiliau galluogi allweddol a gwybodaeth, bylchau mewn dysgu, ansawdd dysgu, dilyniant, ehangder/gostyngiad yn y cwricwlwm ar gyfer dysgu gartref, paratoi ar gyfer arholiadau a cholli cyfleoedd;
- Pwysau ar y proffesiwn – addasiadau enfawr i athrawon a chynorthwyrwyr addysgu, ail-gynllunio a blaenoriaethu dysgu, morâl a lles, disgwyliadau sy'n gysylltiedig â COVID, swm y dyletswyddau, canllawiau a chymorth disgwyliadau, pwysau gweithredol o ran dychwelyd i'r ysgol, mwy o bwysau gweinyddol, diwygio addysg a recriwtio a chyllid;
- Mae rhai dysgwyr yn cael mwy o her ac yn wynebu mwy o bwysau'r system - mae dysgwyr sy'n agored i niwed, y blynyddoedd cynnar, grwpiau blwyddyn arholiad, effaith ar ddysgwyr addysg cyfrwng Cymraeg yn enwedig y rheini o deuluoedd Saesneg, dysgwyr o deuluoedd lle mae Saesneg yn iaith ychwanegol, pontio B6/B7 ac anafanteision lleol;
- Pwysau'r system - y gallu i addasu, technoleg ddigidol, perthnasoedd, gallu proffesiynol, graddfa newid a natur addysg;
- Risgiau – argyfwng lles yn y dyfodol, materion anghydraddoldeb, effaith economaidd estynedig y pandemig wrth symud ymlaen;
- Mynd i'r afael â materion – cynllun adfer ar waith, materion cenedlaethol i'w hystyried a chanolbwyntio ar les.

Trafododd aelodau'r pwyllgor y materion a godwyd uchod a gwnaeth y ddau sylwadau mewn perthynas â nhw a gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r Swyddog a ymatebodd yn briodol.

Nododd y Cynghorydd J A Raynor, Aelod y Cabinet dros Addysg, Dysgu a Sgiliau fod cyfathrebiadau diweddar gan CLILC yn dangos bod adferiad o'r pandemig yn effeithio ar ddisgyblion ledled Cymru, ac y gallai gymryd sawl blwyddyn i wella a dal i fyny.

Nododd y Cadeirydd y gallai'r cynllun adfer sydd ar waith ynghyd â'r materion a amlygwyd ac a drafodwyd yn y cyfarfod fod yn sail i adroddiad i'r Cabinet gan y pwyllgor.

Gofynnodd i'r Cyfarwyddwr ddrafftio adroddiad a'i ddsbarthu er mwyn iddynt wneud sylwadau arno cyn iddo gael ei gyflwyno i gyfarfod o'r pwyllgor yn y dyfodol.

19 Cynllun Gwaith 2020 - 2021.

Nododd y Cadeirydd, er mwyn rhoi cyfle i'r Cyfarwyddwr ddrafftio a dosbarthu'r adroddiad y cyfeirir ato uchod, cynigiodd y dylid canslo cyfarfod mis Ebrill a threfnu cyfarfod arbennig ddydd Mercher 12 Mai.

Cytunodd a chefnogodd y pwyllgor y cynnig.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.58 pm

Cadeirydd